

Ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar Ddyfodol Rheoli Tir yng Nghymru

Argymhelliad 1

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU sicrhau mynediad di-dariff a di-gwota i Farchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer cynhyrchion amaethyddol a chynhyrchion bwyd Cymru.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi datgan yn ei Phapur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru, ein bod yn credu bod parhau i sicrhau mynediad llawn a dirwystr i Farchnad Sengl Ewrop yn hanfodol i lwyddiant economaidd Cymru yn y dyfodol. Byddai gosod tariffau, a rhwystrau o fath arall rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd yn gwneud niwed i fusnesau yng Nghymru a'r DU yn ehangach.

Mae economi Cymru wedi'i hintegreiddio'n agos iawn â Marchnad Sengl yr Undeb Ewropeaidd, ac mae tua dwy ran o dair o allforion Cymru yn mynd i wledydd yr Undeb Ewropeaidd. Dengys dadansoddiad o gwsmeriaid allforio presennol y bydd unrhyw gyfyngu sylweddol ar fynediad i'r Farchnad Sengl yn niweidiol, a'r mwyaf y cyfyngu, y gwaethaf fydd y canlyniad o ran llai o dwf. Cred Llywodraeth Cymru fod mynediad llawn a dirwystr at y Farchnad Sengl ar gyfer nwyddau, gwasanaethau a chyfalaf yn hanfodol ar gyfer buddiannau Cymru a'r DU gyfan, ac rydym yn annog Llywodraeth y DU i fabwysiadu hyn fel y brif flaenoriaeth wrth negodi gyda'r Undeb Ewropeaidd.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gael llais cydradd wrth y bwrdd trafod yn ystod y trafodaethau ar fynediad i'r Farchnad Sengl. Yn ystod y trafodaethau, dim ond safbwynt y mae cytundeb yn ei gylch yn y DU y caiff Llywodraeth y DU ei gyflwyno, nid safbwynt sy'n cael ei arwain gan y DU.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad. O ystyried amserlenni a goblygiadau refferendwm yr Undeb Ewropeaidd o ran mynediad i'r farchnad sengl mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn chwarae rhan llawn yn y trafodaethau, nid yn unig i sicrhau bod safbwynt negodi'r DU yn adlewyrchu cyd-destun Cymru yn llawn,

ond hefyd i gytuno ar y cyd ar y trefniadau a fydd ar waith ar draws y DU ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU ddiogelu buddiannau cynhyrchwr cig oen Cymru a chynnig eglurder cyn gynted â phosibl am ei strategaeth negodi ynghylch dyfodol cwota cig oen Seland Newydd ar gyfer y DU.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu cig oen yng nghyd-destun amaethyddiaeth Cymru, ond byddai'n ymestyn cwmpas yr argymhelliad hwn drwy fynnu bod yn rhaid i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan i ddiogelu buddiannau'r diwydiant amaethyddiaeth cyfan ar draws pob sector a rhanbarth yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol

Dim

Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru weithio gydag Adrannau perthnasol Llywodraeth y DU i gynyddu'n sylweddol ei hymdrechion masnach yn rhyngwladol er mwyn datblygu marchnadoedd allforio newydd ar gyfer cig oen Cymru a chryfhau'r marchnadoedd presennol.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn yn sgil y ffaith bod Llywodraeth Cymru eisoes yn cyflawni ymdrechion masnach sylweddol i ddatblygu marchnadoedd allforio ar gyfer cynnyrch bwyd a diod yn cynnwys cig oen. O ran allforion cig oen, mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Hybu Cig Cymru sy'n cynnal ymgyrchoedd hyrwyddo masnach ac ymweliadau masnach ac yn ceisio datblygu marchnadoedd allforio. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ceisio dylanwadu ar Adrannau Llywodraeth y DU er mwyn hyrwyddo cig oen Cymru drwy waith masnach rhyngwladol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Hybu Cig Cymru gynyddu ei ymdrechion i farchnata cig oen Cymru mewn marchnadoedd cartref a rhyngwladol er mwyn helpu cynhyrchwyr i ymateb i'r heriau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd. Dylid paratoi strategaeth farchnata newydd i ymdrin â'r materion hyn o fewn y 12 mis nesaf. Rhaid i'r strategaeth ymdrin yn briodol ag anghenion ffermwyr yr ucheldir.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae Hybu Cig Cymru, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, yn adolygu'r cyfleoedd sydd ar gael i Gig Oen Cymru gael statws Dynodiad Daearyddol Gwarchoddedig (PGI) yn y marchnadoedd cartref, Ewropeaidd a rhyngwladol.

Yn 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o Hybu Cig Cymru a oedd yn argymhell y dylid rhoi mwy o ffocws i hyrwyddo allforion ochr yn ochr â pharhau i hyrwyddo yn y farchnad gartref.

Rwyf wedi penodi Bwrdd newydd i Hybu Cig Cymru yn ddiweddar ac rwyf wedi gofyn i'r Bwrdd gynnal arfarniad trylwyr yn 2017/18 o'r holl gyfleoedd allforio ar gyfer cig coch Cymru, gan ystyried sut y maent yn cymharu â chyfleoedd ym marchnad y DU. Bydd yr arfarniad yn ystyried ystod eang o faterion, yn cynnwys y rhai sy'n wynebu cynhyrchwyr sy'n cynhyrchu swm bach o gig oen.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ofyn am drafodaethau dwyochrog gyda Llywodraeth y DU ar fyrder i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol mewn perthynas â phwerau a gedwir yn ôl ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Rwyf wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol â Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ar y mater hwn ac wrth

wneud hynny, rwyf wedi bod yn pwysu am drafodaethau ar y cyd ar y trefniadau ar gyfer y dyfodol.

Yn ystod y trafodaethau rwyf wedi pwysleisio'r angen i barchu datganoli ac y dylai unrhyw safbwynt gan y DU adlewyrchu buddiannau'r DU gyfan. Rhaid i Lywodraeth y DU fod yn glir hefyd pan fydd yn siarad ar ran y DU a phan fydd yn cynrychioli buddiannau Lloegr.

I ategu'r trafodaethau dan arweiniad Gweinidogion cynhelir cyfarfodydd misol hefyd gan grŵp yr uwch swyddogion sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Er bod Papur Gwyn Llywodraeth y DU ar y Bil Diddymu Mawr yn cyfeirio at gynyddu pŵer gwneud penderfyniadau gweinyddiaethau datganoledig, nid yw'n glir ar hyn o bryd a ydym o'r un farn ynghylch pwy sy'n meddu ar y pwerau a sut y dylem fynd ati yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio ei bod o fudd cytuno ar dulliau cyffredin yn y DU mewn perthynas â rhai meysydd polisi datganoledig, lle mae hyn y bwysig ar gyfer gweithrediad didrafferth marchnad y DU, ar yr amod bod Llywodraeth y DU a'r 3 gweinyddiaeth ddatganoledig yn cytuno ar y dulliau hyn. Rhaid i'r dulliau datrys anghydfodau fod yn annibynnol hefyd.

Wrth symud ymlaen, bydd angen cynnal deialog frwd ar draws gweinyddiaethau'r DU er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r sefyllfa gyfreithiol a chyfansoddiadol mewn perthynas â phwerau datganoledig a phwerau a gedwir yn ôl.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU ymrwmo i ddatblygu fframweithiau rheoleiddiol a pholisi yn y dyfodol ar gyfer amaethyddiaeth a datblygu gwledig mewn partneriaeth a sicrhau cydraddoldeb rhwng Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Fel y nodais mewn ymateb i argymhelliad 6, lle y bydd angen Fframweithiau a strwythurau'r DU i ddisodli'r rhai a osodir gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd, bydd angen i'r rhain gael eu datblygu a'u cytuno ar y cyd, yn hytrach na'u gosod.

Dylai hyn gynnwys trefniadau ar faterion heb eu datganoli sydd wedi cael effaith bwysig ar feysydd polisi datganoledig.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu o gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 8

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gryfhau'r mecanweithiau cydweithio, megis datblygu 'Cyngor Gweinidogion y DU', yn unol ag awgrym Llywodraeth Cymru. Dylid sefydlu mecanwaith cymrodeddu annibynnol er mwyn datrys anghydfodau.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Fel y nodwyd yn Diogelu Dyfodol Cymru, nid yw Llywodraeth Cymru yn ystyried bod system bresennol y Cyd-bwyllgor Gweinidogion yn ddigonol ar gyfer yr hyn y dylid ei weld yn 'sofraniaeth gyfun' o fewn y DU ar gyfer meysydd lle y cytunwyd bod buddiannau cyffredin.

Credwn y dylai'r Cyd-bwyllgor Gweinidogion presennol cael ei drawsnewid a'i ailadeiladu yn Gyngor Gweinidogion y DU sy'n cwmpasu'r agweddau amrywiol ar bolisi sy'n gofyn am gytundeb rhwng pedair gweinyddiaeth y DU. Byddai angen i hyn gael ei ategu gan fecanwaith cymrodeddu cadarn a gwirioneddol annibynnol i ddatrys unrhyw anghydfodau ynghylch cysondeb mesurau polisi unigol mewn un genedl o fewn y fframweithiau y cytunwyd arnynt.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 9

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth y DU ymrwymo i gynnal y cyllid ar gyfer amaethyddiaeth ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan o leiaf 2020/21. Ar ôl hynny, y meincnod pwysicaf fydd cylch nesaf y PAC, o 2021/27. Ni ddylid defnyddio fformiwla Barnett i gyfrifo'r cyllid hwn wedyn.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae'n hanfodol, ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd, bod Llywodraeth y DU yn darparu o leiaf cyllid cyfwerth i Lywodraeth Cymru i ddisodli'r hyn sy'n cael ei dderbyn ar hyn o bryd drwy PAC. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i bwysu am y fargen orau i Gymru.

Goblygiadau Ariannol

Dim (i Lywodraeth Cymru)

Argymhelliad 10

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ddyrannu cyllid ar y lefelau sydd ar gael o dan y PAC ar hyn o bryd tan 2020/21 a dylai egluro ei sefyllfa mewn perthynas â chyllid ar gyfer 2020/21 cyn gynted â phosibl.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae cymorth PAC parhaus y tu hwnt i 2020 yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Bydd Llywodraeth Cymru yn manteisio ar bob cyfle i bwysu am eglurder.

Goblygiadau Ariannol

Mae cyllid yn dibynnu ar Lywodraeth y DU.

Argymhellion 11 a 12

Dylai Llywodraeth y DU gydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod anghenion llafur Cymru yn cael eu hadlewyrchu'n llawn yn eu trafodaethau ynghylch gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ddechrau gweithio ar unwaith i asesu'r prinder sgiliau y gall busnesau Cymru eu hwynebu yn sgil lleihad posibl mewn gweithwyr mudol.

Ymateb: Derbyn y ddau

Derbyniaf yr argymhellion hyn. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru yn cydnabod cyfraniad cadarnhaol iawn mudwyr o'r Undeb Ewropeaidd at ein heconomi a'n cymunedau. Yn ogystal â diwallu prinder llafur mewn meysydd penodol yn cynnwys amaethyddiaeth a phrosesu bwyd, maent hefyd yn dod â sgiliau diwylliannol unigryw ac ategol sy'n gallu gwella cynhyrchiant a helpu busnesau i ehangu. Er 2005, mae canran y gweithwyr mudol sy'n rhan o lafur Cymru wedi dyblu. Yn ôl data ystadegol swyddogol o 2015, o blith y gweithlu cyffredinol o 1.4 miliwn yng Nghymru, ganed 94,600 o weithwyr y tu allan i'r DU.

Mae amaethyddiaeth a gweithgynhyrchu bwyd ymhlith y sectorau hynny sy'n elwa'n sylweddol ar argaeledd gweithwyr mudol yn y DU. Ceir pryder y gallai ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd effeithio'n negyddol ar y sector hwn

sydd wedi ei chael yn anodd denu gweithwyr a anwyd yn y DU mewn niferoedd digonol.

Mae data a gasglwyd ar gyfer Cymru yn datgelu bod nifer y gweithwyr nas ganwyd yn y DU yn y sector amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota yn gymharol fach ac yn cyfateb i tua 2% o gyfanswm y gweithlu. Mae'r dosbarthiad yn uwch yn y sector gweithgynhyrchu, sy'n cyflogi tua 15,000 o weithwyr ar y cyfan, sef 10%. Mae'r ffigur hwn yn ymgorffori prosesu bwyd ond nid yw'n galluogi dadansoddiad penodol yn yr is-sector hwn yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ddibyniaeth ar weithwyr tramor yn y sector prosesu bwyd yn uchel iawn yn y DU yn gyffredinol (40% wedi eu geni dramor, a thros 20% yn weithwyr mudol dros dro).

Yn 2015 roedd dros 27% o'r rhai a gyflogwyd yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru wedi eu geni yn yr Undeb Ewropeaidd. Ers 2011 rydym wedi gweld 60% o gynnydd yn nifer y bobl a anwyd yn yr Undeb Ewropeaidd sy'n cael eu cyflogi yn y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru o gymharu â chynnydd o 2% yng ngweddill y DU a gostyngiad o 1% yn y rhai a gyflogwyd o Gymru yn ystod yr un cyfnod.

Rhaid inni sicrhau bod y sectorau amaethyddiaeth a garddwriaeth yng Nghymru yn parhau i gael mynediad i'r gweithlu sydd ei angen arnynt yn dilyn ymadawriad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn asesu anghenion busnesau yng Nghymru ac yn archwilio opsiynau a fyddai'n gwarantu hyfywedd y sectorau hyn. Un ateb posibl, sy'n cael ei ystyried gan Lywodraeth y DU, yw ailgychwyn Cynllun Gweithwyr Amaethyddol Tymhorol y DU a ddaeth i ben yn 2013. Fodd bynnag, ni fyddai cynllun gweithwyr tymhorol yn mynd i'r afael ag anghenion busnesau bwyd a diod yng Nghymru sydd wedi cael eu diwallu hyd yma gan weithwyr mudol, sy'n cyflawni gwaith a ystyrir yn aml yn waith annymunol gan weithwyr lleol; gwaith mewn lladd-dai, ffatrïoedd torri cig ac ar linellau cynhyrchu er enghraifft. Felly, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylid gwarantu hawliau'r holl fudwyr o'r Undeb Ewropeaidd sydd eisoes yn byw yng Nghymru ac y dylid trin pawb sy'n byw yma â'r un parch.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 13

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu strategaeth sgiliau ar gyfer y sector o fewn y 12 mis nesaf, sy'n amlinellu sut y caiff unrhyw brinder sgiliau ei ddiwallu ynghyd â chyfleoedd newydd drwy gyfrwng polisïau hyfforddi ac addysg.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae sicrhau gweithrediad effeithiol y sector yn gofyn am weithlu cwbl hyfforddedig, rhifog sy'n llawn cymhelliad. Mae cyfundrefn bresennol yr Isafswm Cyflog Amaethyddol yn cefnogi datblygiad gyrfaedd a sgiliau drwy amryw fesurau. Yn benodol, mae'n cysylltu tâl â chymwysterau a phrofiad perthnasol mewn amaethyddiaeth, yn darparu ar gyfer datblygiad gyrfa ac yn caniatáu i weithwyr ymgymryd â hyfforddiant perthnasol yn ystod amser gwaith, ar draul eu cyflogwr.

Bydd y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth a ddechreuodd ei waith ym mis Mehefin 2016 yn chwarae rhan allweddol o ran gwella cyfleoedd hyfforddi a datblygu o fewn y sector a mynd i'r afael ag unrhyw brinder sgiliau. Un o brif swyddogaethau statudol y Panel annibynnol yw hyrwyddo'r broses o ddatblygu gyrfaedd a sgiliau. Mae Is-bwyllgor y Panel ar Sgiliau, Datblygiad a Hyfforddiant yn dod ag arbenigwyr o fewn y diwydiant a'r byd academiaidd ynghyd gyda'r bwriad o nodi bylchau, pwysau a blaenoriaethau o ran hyfforddiant ac addysgu a datblygu dull cydgysylltiedig o gynnal a gwella sgiliau mewn amaethyddiaeth.

Yn ogystal, mae'r rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes Cyswllt Ffermio, a ariennir drwy'r Grant Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru, eisoes yn darparu lefelau sylweddol o gymorth i'r sectorau amaethyddol a choedwigaeth yng Nghymru i helpu i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau ac, yn y pen draw, eu cydnerthedd a'u proffidoldeb. Hyd yma, mae 3,080 o ymgeiswyr llwyddiannus wedi cael eu cyflwyno ar gyfer hyfforddiant.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 14

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau bod ystyried trefniadau pontio yn rhan ganolog o rôl Pwyllgor Gweinidogion arfaethedig y DU.

Ymateb: Derbyn

Derbyniad yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Papur Gwyn Llywodraeth Cymru, Diogelu Dyfodol Cymru yn datgan ein bwriad mewn perthynas â threfniadau pontio. Dylai Llywodraeth y DU sicrhau cytundeb ar gyfnod pontio, ar ôl ein inni adael yr Undeb Ewropeaidd yn ffurfiol.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 15

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU sicrhau cyfnod pontio ar gyfer trefniadau cyllido yn y dyfodol, yr un hyd â gweddill cylch cyllido presennol y PAC a'r cylch cyllido nesaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Nod Llywodraeth Cymru yw diogelu buddiannau amaethyddol, amgylcheddol a buddiannau gwledig ehangach Cymru ac mae'n ymchwilio i bob cyfle i sicrhau buddiannau i'n sectorau ffermio, rheoli tir a bwyd. Mae hyn yn cynnwys ymgysylltu'n agos â rhanddeiliaid i bennu fformat posibl y cyfnod pontio.

Goblygiadau Ariannol

Mae'n rhy gynnar i gadarnhau hyn ar hyn o bryd.

Argymhelliad 16

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu system o gymorth sylfaenol sy'n seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy a chynhyrchu bwyd o ansawdd uchel. Dylai cyflwyno system o'r fath fod yn amodol ar gyfnod pontio o hyd nes ddiwedd cylch nesaf y PAC.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn.

Ni fydd y dull dwy golofn presennol mewn perthynas â ffermio a chymorth gwledig ehangach yn gymwys ar ôl inni adael yr Undeb Ewropeaidd. Byddwn yn cyflwyno dull cwbl strategol ac integredig o ddarparu Cymru wledig gynaliadwy yn lle'r hen system.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r cyllid yn dibynnu ar benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 17

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru baratoi cynllun ar gyfer y diwydiant llaeth, drwy ymgynghori â chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr. Dylai'r cynllun hwn nodi sut y bydd cynhyrchwyr, dosbarthwyr a chyflenwyr yn gallu pontio o'r model cyllido presennol i system gymorth yn seiliedig ar ganlyniadau cynaliadwy.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Comisiynodd Llywodraeth Cymru Adolygiad annibynnol o'r Sector Llaeth yng Nghymru a gyflwynwyd ym mis Mawrth 2015. Sefydlwyd Bwrdd Arwain Llaeth Cymru o ganlyniad i'r adolygiad hwnnw i ddarparu ar yr argymhellion hynny.

Mae angen datblygu cyfeiriad strategol ar gyfer y sector yn enwedig yng ngoleuni ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd. Dim ond drwy weithrediad a chytundeb gan bawb yn y gadwyn gyflenwi; ffermwyr, proseswyr a manwerthwyr y gall hyn lwyddo.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio'n agos ag Amaeth Cymru yn ogystal â Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru i ddatblygu a chytuno ar strategaeth ar gyfer cadwyn gyflenwi llaeth Cymru gan sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn rhannu risgiau a gwobrwyon cyfleoedd y farchnad o fewn y sector.

Goblygiadau Ariannol

Caiff y broses o ddatblygu'r strategaeth ei darparu drwy gyllidebau presennol. Fodd bynnag, gallai fod yn ofynnol i ddyraniadau cyllideb ddarparu camau penodol nas cytunwyd arnynt eto.

Argymhelliad 18

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod cyllid yn y dyfodol ar gyfer rheolwyr tir yn seiliedig ar gyflawni canlyniadau sy'n cyfrannu at y targedau uchelgeisiol ar gyfer ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a'i liniaru fel y nodir yn neddfwriaeth Cymru megis Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2016.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Fy ngweledigaeth yw datblygu cymorth yn y dyfodol y tu allan i PAC sydd wedi'i gynllunio'n well i ddarparu nwyddau cyhoeddus a chefnogi busnesau gwledig gan gyflawni ein huchelgeisiau cartref a'n rhwymedigaethau rhyngwladol i sicrhau amgylchedd gwell. Dylai Cymru gael cyfle i ailgynllunio cymorth ar gyfer y diwydiant amaethyddol a buddsoddiad mewn busnesau gwledig yn benodol er mwyn diwallu anghenion sefyllfa Cymru. Mae'n bosibl y bydd llawer o'r blaenoriaethau'n parhau'n ddigynffwrdd ond dyma'r cyfle i ddatblygu'r gofynion a'r cymhellion sy'n diwallu anghenion Cymru yn uniongyrchol.

Bydd unrhyw raglenni yn y dyfodol yn gyson â'n gofynion o dan ddeddfwriaeth Cymru.

Goblygiadau Ariannol

Mae'r cyllid yn ddibynnol ar Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 19

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu cynigion i liniaru ac atal llifogydd naturiol, a hynny ar fyrder.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod dulliau naturiol o reoli perygl llifogydd yn cael eu hystyried fel opsiwn ar gyfer lleihau'r perygl o lifogydd ac yn hynny o beth mae dulliau naturiol o reoli perygl llifogydd yn gymwys o dan y rhaglen rheoli perygl llifogydd a ariennir gan Lywodraeth Cymru. Dylai dulliau naturiol o reoli perygl llifogydd gael eu hystyried yn opsiwn ar gyfer lleihau'r perygl o lifogydd ac mae'n gymwys o dan raglen llifogydd Llywodraeth Cymru. Gallai hyn gynnwys gwaith megis plannu coed, defnyddio gweddillion pren, trwsio argaeau sy'n gollwng dŵr ac ailgyflwyno ystumllynnoedd.

Bydd ein Canllawiau Arfarnu Prosiectau newydd yn annog Awdurdodau Rheoli Risg i ymchwilio i opsiynau naturiol o reoli perygl llifogydd a dulliau arloesol o fynd i'r afael â'r perygl o lifogydd fel rhan o'r broses o ddatblygu cynllun busnes, lle mae'n addas i wneud hynny. Mae ein Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru yn nodi sut y mae'n rhaid inni edrych ar atebion naturiol ac arloesol i reoli perygl llifogydd ochr yn ochr â chynlluniau amddiffyn mwy traddodiadol. Yng Nghymru rydym mewn sefyllfa ddelfrydol i integreiddio'r cyfryw ddulliau ochr yn ochr â chynlluniau sefydledig o ganlyniad i'r berthynas waith agos rhyngom ag Awdurdodau Rheoli Risg a sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru. Caiff y neges hon ei hatgyfnerthu yn y diweddariad i'n Strategaeth Genedlaethol.

Rydym wedi bod yn rhan o dreialon a gwaith ymchwil mewn mannau megis Pont Bren i adfer dalgylchoedd ucheldir ac yn nalgylchoedd uchaf Elwy a Chlwyd, a fydd yn helpu i lywio buddiannau'r cyfryw ddulliau gweithredu y gallwn eu rhannu ag Awdurdodau Rheoli Risg er mwyn annog ymhellach y defnydd o ddulliau naturiol o reoli perygl llifogydd yng Nghymru.

Goblygiadau Ariannol

Dim. Caiff dulliau naturiol o reoli perygl llifogydd eu hannog ac maent yn gymwys i gael cyllid o dan raglen llifogydd Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 20

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru ddatblygu diwylliant bwyd yng Nghymru sy'n: rhoi gwerth ar gynnyrch lleol; lleihau milltiroedd bwyd ac ôl-troed carbon; a diogelu safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid. Dylai hyn sicrhau mynediad i'r Farchnad Sengl i'n cynhyrchwyr a chynnal ein henw da am nwyddau o ansawdd uchel a wnaed yng Nghymru.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan pa mor bwysig yw parhau i sicrhau mynediad llawn a dirwysr at y Farchnad Sengl a gwerth enw da Cymru o ran ei chynnyrch bwyd a diod yn 'Diogelu Dyfodol Cymru'.

Mae Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a benodir yn gyhoeddus, yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiant bwyd a diod o ran ei dwf, ei werthoedd, a'i ddiwylliant ehangach, ei effaith gymdeithasol a'i berthnasedd. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar arwain newid o fewn y diwydiant, wedi'i lywio tuag at ddarparu 'Tuag at Dwf Cynaliadwy – Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-20'. Mae 48 o gamau'r Cynllun Gweithredu yn nodi rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu'r diwydiant yn ei ystyr ehangaf, mewn ffyrdd sydd hefyd yn datblygu 'Symud Cymru Ymlaen'.

Goblygiadau ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 21

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru anelu at gynyddu'r cynnyrch o Gymru sy'n cael ei gaffael gan y sector cyhoeddus ac adrodd i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar lefelau caffael presennol a'i chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi gwneud cynnydd sylweddol wrth wella cwmipas caffael cyhoeddus fel cyfle marchnata ar gyfer cynhyrchwyr bwyd a diod Cymru. Mae dull newydd o ran y modd y caiff contractau eu rhoi allan i dendr wedi creu nifer o gyfleoedd newydd ar gyfer cynhyrchwyr nad oedd ganddynt, o bosibl, y gallu na'r cyrhaeddiad yn flaenorol i dendro a chyflawni'r gofynion yn llwyddiannus. Cynhaliwyd gweithgarwch codi ymwybyddiaeth hefyd.

Goblygiadau ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 22

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chynhyrchwyr, dosbarthwyr a manwerthwyr bwyd yng Nghymru i gynyddu

gwerthiant cynnyrch o Gymru, gan gynnwys llyisiau, ac adrodd ar gynnydd i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae gan Lywodraeth Cymru raglen gynhwysfawr o weithgareddau ar waith eisoes sy'n cefnogi busnesau. Mae'r rhain yn deillio o 'Tuag at Dwf Cynaliadwy – Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020'. Mae 48 o gamau'r Cynllun Gweithredu yn nodi rhaglen gynhwysfawr i ddatblygu'r diwydiant. Mae'r Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru a benodir yn gyhoeddus hefyd yn gweithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru i helpu i ddatblygu'r diwydiant.

Goblygiadau ariannol

Dim. Caiff unrhyw gostau ychwanegol eu talu gan gyllidebau'r rhaglenni presennol.

Argymhelliad 23

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai cyllid ar gyfer rheolwyr tir yn y dyfodol gefnogi'r broses o gyflawni canlyniadau sy'n cynnal ac yn gwella bioamrywiaeth yng Nghymru yn ogystal â hyrwyddo dull gofodol o reoli tir. Dylai unrhyw ddull o'r fath gefnogi amcanion Cynllun Adfer Natur Llywodraeth Cymru.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Nod Llywodraeth Cymru yw diogelu buddiannau gwledig ac amgylcheddol Cymru ac rydym yn ymchwilio i bob cyfle i i sicrhau buddiannau i'r sectorau ffermio, rheoli tir a bwyd. Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol i Gymru.

Goblygiadau Ariannol

Mae cyllid yn ddibynnol ar Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 24

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod cymorth i reolwyr tir yng Nghymru yn y dyfodol yn gwobrwo rheolwyr tir am wella mynediad i gefn gwlad. Dylai'r cyllid hefyd adlewyrchu i ba raddau y mae llwybrau mynediad yn cael eu cynnal a'u cadw a'u hyrwyddo.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniat yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ymrwymedig i ymestyn y cyfleoedd ar gyfer mynediad cyhoeddus i Gefn Gwlad ers amser maith, drwy gyfrwng Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 a Llwybr Arfordirol Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith newydd i wella mynediad cyhoeddus a gwobrwyo rheolwyr tir sy'n ymrwymo i wella neu ategu cyfleoedd mynediad presennol. Mae hyn yn destun gwarantau cyllid ar gyfer y dyfodol gan Lywodraeth y DU.

Goblygiadau Ariannol

Mae cyllid yn ddibynnol ar benderfyniadau gan Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 25

Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cymorth ar gyfer datblygu gwledig yn y dyfodol yn cwmpasu arferion gorau cynlluniau presennol megis LEADER er mwyn sicrhau na chaiff gwersi a buddsoddiad hollbwysig eu colli pan fyddwn yn gadael yr Undeb Ewropeaidd.

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Derbyniat yr argymhelliad hwn mewn egwyddor. Mae cynlluniau megis LEADER a chynlluniau cymunedol eraill ar lawr gwlad yn darparu'r buddsoddiad cyn-fasnachol a'r arloesedd sy'n ofynnol yng nghefn gwlad Cymru.

Gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw rhaglen gymorth ar gyfer y dyfodol nad yw'n rhan o PAC, sydd wedi'i chynllunio'n well i ddarparu nwyddau cyhoeddus a chefnogi busnesau gwledig. Dylai Cymru gael cyfle i ailgynllunio cymorth ar gyfer y diwydiant amaethyddol a buddsoddiad busnesau gwledig yn benodol er mwyn diwallu anghenion sefyllfa Cymru. Mae'n bosibl y bydd llawer o'r blaenoriaethau'n aros yn ddigynffwrdd ond dyma'r cyfle i ddatblygu'r gofynion a'r cymhellion sy'n diwallu ein hanghenion yn uniongyrchol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys nodi'r blaenoriaethau y dylid mynd i'r afael â hwy mewn senarios cyllido gwahanol. Mae'n rhy gynnar i ddweud a fydd y dulliau presennol yn briodol ar gyfer darparu'r camau gweithredu sy'n ofynnol.

Goblygiadau Ariannol

Mae cyllid yn ddibynnol ar Lywodraeth y DU.

Argymhelliad 26

Mae'r Pwyllgor yn argymhell yn ei thrafodaethau â Llywodraeth y DU, bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru bwysleisio i ba raddau y mae cymorth i

amaethyddiaeth a datblygu gwledig yn sail i hyfywedd cymunedau gwledig a diwylliant ac iaith Cymru, sydd felly'n atgyfnerthu'r angen i barhau â'r lefelau cymorth presennol.

Ymateb: Derbyn

Derbyniaf yr argymhelliad hwn. Mae amaethyddiaeth wedi'i ddatganoli'n llawn i Gymru a bydd yn parhau felly ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Nod Llywodraeth Cymru yw parhau i ddiogelu buddiannau gwledig ac amgylcheddol Cymru ac rydym yn ymchwilio i bob cyfle i sicrhau buddiannau i'n sectorau ffermio, rheoli tir a bwyd.

Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu buddiannau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol allweddol i Gymru ac rwyf fi, ynghyd â'r Prif Weinidog, wedi bod yn amlygu anghenion Cymru yn ein trafodaethau â Llywodraeth y DU a byddwn yn parhau i wneud hynny.

Goblygiadau Ariannol

Dim goblygiadau ariannol.

Lesley Griffiths AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig